## CYNGOR CAERDYDD

COFNODION

## CYFARFOD Y CABINET: 18 IONAWR 2024

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorwyr Peter Bradbury/ Julie Sangani (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Jen Burke<br>Y Cynghorydd Dan De'Ath<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorwyr Norma Mackie/ Ash Lister (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Chris Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Arsylwyr: | Y Cynghorydd John Lancaster<br>Y Cynghorydd Joe Carter |
| Hefyd: | |
| Swyddogion: | Paul Orders, Prif Weithredwr<br>Chris Lee, Swyddog Adran 151<br>Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Debbie Marles, Swyddog Monitro<br>Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | Y Cynghorydd Rodney Berman |

### COFNODION CYFARFOD Y CABINET AR 14 RHAGFYR 2023

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023.

### DERBYN ADRODDIAD YR YMCHWILIAD GORCHWYL A GORFFEN AR Y CYD AR Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (CDLLN)

Cyflwynodd y Cynghorydd Williams Adroddiad yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd ar y CDLl Newydd. Mae gan adroddiad yr ymchwiliad 130 o ganfyddiadau allweddol a 17 o argymhellion.

**PENDERFYNWYD:** derbyn yr adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant o'r enw "Amgueddfa Caerdydd" a chyflwyno ymateb o fewn yr amserlen arferol.

## DIWEDDARIAD AR Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN

**Datganodd y Cynghorydd Sangani fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru.**

***Ni chaiff Atodiad 2 Adroddiad y Cabinet ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r math a ddisgrifir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn rhoi diweddariad ar gyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghaerdydd ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyflawni ddiwygiedig ar gyfer 2024/25, gan gynnwys cynigion ar gyfer cyllid heb ei ddyrannu ar hyn o bryd ac unrhyw danwariant yn y dyfodol.

Nodwyd yr ymgeiswyr llwyddiannus i broses Galwad Agored Cronfa Ffyniant Gyffredin y Cyngor. Nodwyd y bydd y cynlluniau hyn yn cefnogi ystod o weithgareddau, gan gynnwys cymorth eang a thargedig i bobl ifanc gael gwaith, cymorth ar gyfer gweithgareddau gwirfoddoli, cymorth ar gyfer gweithgareddau i bobl hŷn, cynlluniau i wella'r amgylchedd lleol, buddsoddi mewn adeiladau cymunedol a chymorth i gymunedau difreintiedig.

Amlygwyd bod yr adroddiad hwn yn rhoi'r dirprwyaethau angenrheidiol i ddod â'r Rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin gyfredol i ben. Bydd y Cabinet yn parhau i dderbyn diweddariadau ar gynnydd, yn ogystal ag allbynnau a chanlyniadau'r rhaglen.

Dosbarthwyd llythyr cyhoeddus a chyfrinachol gan y Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant.

PENDERFYNWYD:

1. dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor i ddatblygu'r prosesau arfaethedig ar gyfer cyllid heb ei ddyrannu a nodir yn yr adroddiad hwn ym mharagraffau 16 i 19.

2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai i ddyrannu unrhyw danwariant fel yr amlinellir ym mharagraffau 20 i 21.

3. dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor i ddod ag unrhyw drefniadau sy'n ymwneud â thanwariant rhanbarthol cyffredinol i ben.

## CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD

***Mae Atodiad 4 yr adroddiad hwn wedi'i olygu i ddileu gwybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag ei chyhoeddi yn unol â pharagraffau 13 a 21 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972; ac mae Atodiadau 5 a 6 yr adroddiad hwn wedi'u golygu i ddileu gwybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag ei chyhoeddi yn unol â pharagraffau 14 a 21 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

*Datganodd y Cynghorydd Merry fuddiant personol yn yr eitem hon gan fod y penderfyniad yn effeithio ar ran o'i hward.*

*Datganodd y Cynghorydd Burke fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn rhiant i blant mewn ysgol yn Ystum Taf.*

*Datganodd y Cynghorwyr Mackie a Weaver fuddiant personol a rhagfarnus gan eu bod yn Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Gladstone ac y gwnaethant gymryd rhan yn yr ymgynghoriad fel Llywodraethwr. Gadawodd y Cynghorwyr Mackie a Weaver y cyfarfod ac ni wnaethant gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniad ar yr eitem hon.*

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ynghylch cynigion i gydbwyso'r ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r hysbysiad statudol mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan. Nodwyd bod pum gwrthwynebiad wedi'u derbyn i'r hysbysiad, gan gynnwys un o Ysgol Mynydd Bychan ac un o Ysgol Glan Ceubal.

Nododd yr adroddiad fod hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â chynigion a gyhoeddwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica - ac a oedd yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd gan y Cyngor - i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol, o fis Medi 2025.

Dosbarthwyd llythyr cyhoeddus y gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi cynigion Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol, o fis Medi 2025, a gaiff eu penderfynu gan y Corff Llywodraethu ar 11 Ionawr 2024.

2. Yn amodol ar benderfyniad Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, gweithredu'r cynigion y cyfeirir atynt yn argymhelliad 1, i fwrw ymlaen i:

(i) Gymeradwyo'r cynigion mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan fel y nodir ym mharagraff 1 yr adroddiad hwn, heb eu haddasu.

(ii) Awdurdodi swyddogion i gymryd camau priodol i weithredu'r cynigion fel y nodir ym mharagraff 1.

(iii) Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi’r penderfyniad o fewn 7 diwrnod i benderfynu ar y cynigion.

(iv) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes (mewn ymgynghoriad â’r Aelodau Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau a Chyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, a’r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd) i benderfynu ar bob agwedd ar y broses gaffael (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, ddatblygu’r holl ddogfennau caffael a’r meini prawf dethol a dyfarnu, dechrau caffael hyd at ddyfarnu contractau) a chymeradwyo’r holl ddogfennau atodol sy’n gysylltiedig ag unrhyw faterion eiddo sy’n codi o’r adroddiad hwn.

**STRATEGAETH AMWYNDER SGLEFRFYRDDIO CAERDYDD**

Ystyriodd y Cabinet Strategaeth Amwynder Sglefrfyrddio arfaethedig Caerdydd, sef Atodiad 1 yr adroddiad. Amlygwyd bod sglefrfyrddio wedi dod yn Gamp Olympaidd ac, o ganlyniad, mae nifer y bobl yn cymryd rhan ynddo a'r galw amdano yn tyfu. Nodwyd y byddai’r Strategaeth yn cyfrannu at nodau strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd, Deddf Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r uchelgeisiau Dinas sy’n Dda i Blant. Nodwyd hefyd y byddai mabwysiadu'r strategaeth a chyflawni cyfleusterau newydd yn lleihau pwysau refeniw parhaus, yn darparu mannau diogel ac yn annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan.

Nodwyd y byddai cynnydd yn cael ei adolygu drwy'r cynllun cyflawni Parciau, Chwarae a Seilwaith Blynyddol, sef Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Dosbarthwyd llythyr cyhoeddus gan y Pwyllgor Craffu’r Economi a Diwylliant.

PENDERFYNWYD:

1. mabwysiadu’r Strategaeth Amwynder Sglefrfyrddio.

2. Nodi y bydd Swyddogion yn adolygu'r cynnydd i gyflawni'r strategaeth drwy'r cynllun cyflawni Parciau, Chwarae a Seilwaith Blynyddol, sef Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

## ARDRETHI ANNOMESTIG – DILEU DYLEDION

***Ni fydd Atodiadau A a B yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am awdurdodiad i ddileu dyledion sy’n dod i gyfanswm o £120,375.00. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag ymdrechion i adennill y ddyled hon.

PENDERFYNWYD: awdurdodi dileu'r dyledion a nodir yn **Atodiad A**, sy’n dod i gyfanswm o 120,375.00.

## REFIT:4 2023/24 - RHAGLEN ÔL-FFITIO ARBED YNNI

Derbyniodd y Cabinet adroddiad ynghylch datblygu a dull rhaglen ôl-ffitio newydd ar gyfer cadwraeth ynni sef Re:Fit 4 ar draws ystâd eiddo'r Cyngor, a fydd yn helpu i fwrw targedau lleihau carbon Amgylchedd Adeiledig Caerdydd Un Blaned.

Mae'r adroddiad yn nodi manylion y Strategaeth Eiddo Corfforaethol a'r targedau lleihau carbon sy'n gysylltiedig ag ystâd y Cyngor. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y gwaith ar Re:Fit hyd yma a chynigion yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

1. nodi'r broses a'r dull o gyflawni’r Rhaglen Re:Fit 4.

2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Swyddog Adran 151 a’r Swyddog Cyfreithiol, i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ag elfennau gwaith yn y dyfodol ac ymdrin yn gyffredinol â phob agwedd (hyd at ac yn cynnwys dyfarnu unrhyw gontractau) sydd i'w darparu gan y darparwr gwasanaeth penodedig.

3. Nodi y bydd adroddiadau diweddaru pellach yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cabinet i gael gwybodaeth am ddatblygiad y rhaglenni cyffredinol.

## DIWEDDARIAD AR LANFA'R IWERYDD

***Nid yw Atodiadau 2,3,4,5,6, 8 a 9 yr adroddiad hwn i'w cyhoeddi am eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 16 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn manylu ar yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ailddatblygu safle Canolfan y Ddraig Goch (CDdG) fel rhan o adfywiad ehangach Safle Glanfa'r Iwerydd. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio awdurdod i ddiwygio'r strategaeth parcio ceir, fel y nodir yn Atodiad Cyfrinachol 4 yr adroddiad, i gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â'r prosiect Arena Dan Do newydd ac i gefnogi adfywiad safle ehangach Glanfa'r Iwerydd. Ar ben hynny, mae'r adroddiad yn cynnig opsiynau ar gyfer gwella cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr ar hyd Rhodfa Lloyd George i wella'r cysylltiad rhwng canol y ddinas a Bae Caerdydd.

Dosbarthwyd llythyr cyhoeddus a chyfrinachol gan y Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant.

PENDERFYNWYD:

i) nodi ymarfer y farchnad ar gyfer ailddatblygu tir a nodir fel Ardal B ar y cynllun yn **Atodiad 1** a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Swyddog Adran 151, a'r Swyddog Cyfreithiol i:

  a. negodi a llunio cytundeb cyfyngu gyda'r 'Cynigydd a Ffefrir'.

  b. negodi contract cytundeb opsiynau gyda'r 'Cynigydd a Ffefrir' a dychwelyd i'r Cabinet i'w gymeradwyo'n derfynol.

ii) nodi'r strategaeth parcio ceir ddiwygiedig ar gyfer cynllun adfywio Glanfa'r Iwerydd fel y nodir yn Atodiad Cyfrinachol 4 ac awdurdodi'r newid i'r Cytundeb Cronfa Datblygu Arena Dan Do gyda Live Nation i adlewyrchu'r dull newydd hwn.

iii) awdurdodi caffael Maes Parcio Aml-lawr Stryd Pen y Lanfa yn unol â'r telerau a nodir yn **Atodiad Cyfrinachol 6** a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Cyfreithiol i gwblhau'r caffaeliad.

iv) cymeradwyo neilltuo tir at ddibenion cynllunio fel y nodir yn **Atodiad 7** a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd i neilltuo parseli yn y dyfodol fel yr amlinellir.

v) nodi'r cynnig ar gyfer Rhodfa Lloyd George fel y nodir yn **Atodiad 8 ac Atodiad Cyfrinachol 9** ac awdurdodi ymarfer ymgynghori i ystyried y cynnig.

## CYNLLUN PARCIO YN Y DDINAS

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth (yn amodol ar fân ddiwygiadau) o'r Cynllun Parcio yn y Ddinas drafft, sef Atodiad 1 yr adroddiad, a diwygiadau drafft i Bolisïau Parcio'r Cyngor, sef Atodiadau 3-6 yr adroddiad. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio awdurdod i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Cynllun Parcio yn y Ddinas drafft a diwygiadau drafft i'r Polisïau Parcio.

Nodwyd y byddai Cynllun Parcio yn y Ddinas yn galluogi dull cynhwysfawr o ymdrin â pharcio ar draws y ddinas gyfan i helpu i fynd i'r afael â pharcio ar y stryd mewn ardaloedd lle mae anghyfleustra rheolaidd i drigolion lleol gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Trafnidiaeth 10 mlynedd y Cyngor.

Dosbarthwyd llythyr cyhoeddus gan y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.

PENDERFYNWYD:

1. (yn amodol ar fân ddiwygiadau yn unol ag argymhelliad 5), cymeradwyo'r Cynllun Parcio yn y Ddinas drafft (i'w weld yn Atodiad 1).

2. cymeradwyo dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Parcio yn y Ddinas drafft (i'w weld yn Atodiad 1).

3. (yn amodol ar fân ddiwygiadau yn unol ag argymhelliad 5), cymeradwyo'r diwygiadau drafft i Bolisïau Parcio'r Cyngor (i'w gweld yn atodiadau 3-6).

4. cymeradwyo dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y diwygiadau drafft i'r Polisïau Parcio (i'w gweld yn atodiadau 3-6).

5. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a Swyddog Adran 151 y Cyngor, i:

    i. Baratoi a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Parcio yn y Ddinas drafft a'r diwygiadau drafft i Bolisïau Parcio'r Cyngor; a
    ii. Gwneud mân ddiwygiadau i'r Cynllun Parcio yn y Ddinas a'i gymeradwyo, ynghyd â'r newidiadau i Bolisïau Parcio'r Cyngor yn dilyn unrhyw argymhellion a wnaed ar ôl cau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23 Y GWASANAETH RHEOLIADOL A RENNIR (GRHR)

Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, sef Atodiad A yr adroddiad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y perfformiad gweithredol ar draws y rhanbarth gan gynnwys goblygiadau gweithredol allweddol i Gaerdydd o ran; cydymffurfiaeth sefydliadau bwyd â hylendid bwyd, canran yr eiddo preifat gwag

yn cael eu hadfer i’w defnyddio eto ac yn tynnu sylw at gyflawniadau gwasanaeth sylweddol yn erbyn yr Achos Busnes ar gyfer 22/23.

PENDERFYNWYD: nodi Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022-23.

**STRATEGAETH CYFRANOGIAD 2023-27**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad ynghylch ymatebion i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Cyfranogiad y Cyngor ac a oedd wedi hynny yn ceisio cymeradwyaeth o'r diwygiadau canlyniadol i Strategaeth Cyfranogiad 2023-27 ddrafft, sef Atodiad A yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth o’r Canllaw Cyfansoddiad terfynol, sef Atodiad C yr adroddiad. Amlygwyd nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i'r Cynllun Deisebau cymeradwy.

Nodwyd bod Strategaeth Cyfranogiad ddrafft y Cyngor ar gyfer 2023-27 yn cynnwys dwy elfen benodol:

- Rhan 1 – mae'r adran hon yn canolbwyntio ar drefniadau Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor.

- Rhan 2 – mae'r adran hon yn canolbwyntio ar Ymgysylltu Democrataidd

Nodwyd bod y ddwy ran o Strategaeth Cyfranogiad 2023-27 yn cynnwys cynllun gweithredu’n nodi ystod o gamau gweithredu i gefnogi’r gwaith o weithredu'r Strategaeth.

Dosbarthwyd llythyr cyhoeddus gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo Strategaeth Cyfranogiad 2023-27;

2. nodi na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun Deisebau cymeradwy, sydd i'w adolygu eto yn 2025/26;

3. Cymeradwyo’r Canllaw Cyfansoddiad ac awdurdodi’r Swyddog Monitro i wneud unrhyw fân newidiadau y gallai fod eu hangen o bryd i'w gilydd; a

4. dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â’r Aelodau Cabinet dros Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd, i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i Strategaeth Cyfranogiad 2023-27 ddrafft yn dilyn unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, ynghyd ag unrhyw fân ddiwygiadau eraill, yn ôl yr angen, cyn cyhoeddi.